# Lleoliad Hyfforddiant Doethurol mewn Polisi a Thystiolaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Prosiect: Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr**

**Teitl:** **Lleoliad ar gyfer myfyriwr PhD – "Dadansoddi tystiolaeth, problemau ac effeithiau ailgylchu yng Nghymru yn y dyfodol"**

Mae'r Is-adran Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol yn chwilio am fyfyriwr PhD ar gyfer lleoliad yn ei thîm Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr. Yn ogystal ag arwain y polisi ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, mae'r is-adran yn ymdrin ag ailgylchu, olrhain gwastraff, rheoleiddio gwastraff, seilwaith gwastraff, atgyweirio ac ailddefnyddio a pholisïau ehangach economi gylchol.

**<u>Diben y Swydd</u>**

Mae strategaeth Economi Gylchol Cymru, Mwy Nag Ailgylchu, wedi amlinellu ein huchelgais i weithio gyda llywodraethau eraill y DU i ddatblygu Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer plastigau, gwastraff electroneg a batris a chyflwyno'r ddeddfwriaeth i ategu'r gwaith o roi'r cynllun ar waith. Mae cyflwyno Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr er mwyn rhoi cymhellion i fusnesau i leihau gwastraff yn ymrwymiad penodol o fewn y Rhaglen Lywodraethu, ac yn cael ei ystyried yn rhaglen bwysig gan Swyddfa Cabinet y DU.

Byddwn hefyd yn edrych ar y potensial i ddefnyddio Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer cynhyrchion ychwanegol sy’n anodd eu hailgylchu fel teiars, tecstilau a gwastraff swmpus (er enghraifft dodrefn, matresi a charpedi) a chynhyrchion a ddefnyddir yn y sector adeiladu.

Gan weithio ar draws yr Is-adran, a chydag amrediad o randdeiliaid allanol, diben y lleoliad yw nodi, coladu a dadansoddi data ynglŷn ag effaith ffrydiau gwastraff deunyddiau (er enghraifft tecstilau, a gwastraff swmpus) yn erbyn meini prawf gosod/canlyniadau polisi (yr Effaith Economaidd, Gymdeithasol ac Amgylcheddol) i bennu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Bydd y gwaith hwn yn hanfodol er mwyn ystyried y ffordd orau o ddyrannu adnoddau a chefnogi trafodaethau traws-lywodraethol.

**<u>Y Tasgau Allweddol</u>**

- Cydgysylltu tystiolaeth a sicrhau ansawdd, gan weithio gyda thimau polisi ar draws yr Is-adran i nodi tystiolaeth a bylchau tystiolaeth ar gyfer ffrydiau deunyddiau.
- Ymchwil pen bwrdd – gan ddefnyddio dulliau priodol i adolygu'r dystiolaeth (deunyddiau darllen neu ddata ystadegol) ynghylch ffrydiau deunyddiau penodol.
- Cysylltu a thrafod â rhanddeiliaid – hwyluso trafodaethau a chasglu tystiolaeth a safbwyntiau rhanddeiliaid allanol ac academyddion sy'n gweithio yn y maes. Cysylltu â swyddogion o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd hefyd yn gweithio yn y maes.
- Dadansoddi a modelu – drwy ddefnyddio amrediad o dystiolaeth a nodwyd, dadansoddi effaith ffrydiau deunyddiau gwastraff yn erbyn meini prawf penodol i bennu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Nodi bylchau tystiolaeth a disgrifio anghenion tystiolaeth yn y dyfodol. Argymell rhestr o ddeunyddiau â blaenoriaeth y dylid estyn y Cynllun Estynedig Cynhyrchwyr er mwyn eu cynnwys, gan ystyried yn benodol amserlenni, seilwaith presennol, polisïau presennol ac arferion yr UE.
- Dogfennau'r Rhaglen – sicrhau bod dogfennau tystiolaeth a data perthnasol ar gael fel y bo modd mynd ati i ddatblygu polisi ar sail tystiolaeth yn y dyfodol.

Bydd yr union dasgau y bydd angen i'r myfyriwr ymgymryd â nhw'n dibynnu ar ffocws penodol y tîm ar adeg y lleoliad, ac mae'n debygol y bydd y myfyriwr yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn meysydd gwaith eraill lle mae ganddo ddiddordeb penodol

**Manylion**

| | |
|---|---|
| **Y sgiliau gofynnol:** | **<u>Sgiliau Allweddol</u>**<br>• Sgiliau ymchwil rhagorol<br>• Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth a data cymhleth<br>• Y gallu i ysgrifennu'n glir ac yn gryno<br>• Y gallu i gyflwyno deunyddiau technegol mewn fformat hawdd eu deall<br>• Sgiliau cyflwyno<br>• Meddwl yn greadigol |

| | |
|---|---|
| | • Y gallu i weithredu mewn modd arloesol |
| **Allbynnau:** | I'w cytuno gyda'r rheolwr llinell ac yn unol â'r blaenoriaethau uchod. |
| **Y Sefydliad sy'n cynnig y cyfle:** | Llywodraeth Cymru |
| **Dyddiad dechrau'r lleoliad:** | Cyn gynted â phosibl |
| **Cyfleoedd datblygu:** | Mae'r lleoliad yn gyfle i weld sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio a sut mae polisi yn cael ei ddatblygu ar sail tystiolaeth ar y lefel uchaf. Bydd deiliad y swydd yn gweithio mewn tîm diddorol ac amrywiol, gan gyfrannu at lywio cyfeiriad polisi ar gyfer y dyfodol. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd weithio'n annibynnol o fewn y ffiniau a'r canllawiau a roddir gan Lywodraeth Cymru. Gan weithio'n agos gydag amrediad eang o gydweithwyr, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn meithrin cysylltiadau gwaith gwerthfawr, yn ehangu ei wybodaeth am lunio polisïau cyhoeddus ac yn gwella ei sgiliau trosglwyddadwy presennol.<br><br>Mae hon yn rôl ddiddorol ac amrywiol, lle bydd y deiliad yn gweithio ar raglen proffil uchel ar draws portffolios Llywodraeth Cymru. Bydd hynny'n caniatáu i'r myfyriwr ennill gwybodaeth a meithrin dealltwriaeth eang am y gwaith polisi a wneir gan Lywodraeth Cymru. Gyda chymorth ei oruchwyliwr yn Llywodraeth Cymru, bydd disgwyl i'r myfyriwr fod yn gyfrifol am reoli a chyflawni ymrwymiadau gwaith yn ystod cyfnod y lleoliad. |
| **Hyd y lleoliad, ymhle, y trefniadau gweithio a'r amgylchedd gwaith:** | Bydd y rôl yn llawn amser ac wedi'i lleoli gyda Thîm Polisi Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, gan weithio'n agos gyda Thîm Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Yn unol â'r polisi gweithio hyblyg, bydd deiliad y swydd yn gallu gweithio gartref, a bydd gweithio mewn swyddfa hefyd yn opsiwn, yn unol â threfniadau gweithio ar gyfer holl gyflogeion Llywodraeth Cymru<br><br>Bydd deiliad y swydd yn cael gliniadur er mwyn hwyluso cysylltu'n rheolaidd ag aelodau'r tîm polisi a'i reolwr llinell, timau polisi eraill a phartneriaid allanol. Oherwydd natur gweithio o bell, bydd y tîm polisi yn sicrhau bod deiliad y swydd yn cael ei gefnogi'n llawn yn ystod y lleoliad, ac yn ymdrechu i sicrhau bod y profiad mor debyg â phosibl i'r profiad o weithio yn rhan o dîm mewn swyddfa.<br><br>Bydd y lleoliad yn para am dri mis, a bydd yn canolbwyntio ar gyflawni'r amcanion a nodir ym manyleb y swydd. Mae'n bosibl y bydd opsiwn i estyn y lleoliad am dri mis arall os bydd tîm y prosiect yn teimlo bod hynny'n briodol, ac os bydd hynny'n gyd-fynd â'r amserlen ymchwil a bennwyd gan brifysgol deiliad y swydd a threfniadau'r Bartneriaeth Hyfforddiant Doethurol/y Canolfan Hyfforddiant Doethurol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn sefydliad dwyieithog ac mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn gaffaeliad i'r sefydliad. Rydym yn annog ac yn cefnogi staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn ystod lleoliad.<br><br>Byddwn yn cytuno ar y dyddiad dechrau ar ôl i Lywodraeth Cymru gynnal cliriad diogelwch yn llwyddiannus. |
| **Meini Prawf Ymgeisio:** | **Dim ond oddi wrth fyfyrwyr cofrestredig y gall Llywodraeth Cymru dderbyn ceisiadau i raglen lleoliadau myfyrwyr PhD. Rhaid i bob ymgeisydd ofyn am gymeradwyaeth ei oruchwyliwr academaidd cyn gwneud cais.**<br>Nid yw'r lleoliad hwn ar gael ond i ymgeiswyr y mae lleoliad gwaith yn rhan annatod o'u rhaglenni PhD. |
| **Cyllid** | |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Lleoliad Hyfforddiant Doethurol mewn Polisi a Thystiolaeth

| | |
|---|---|
| Disgwylir i'r cyllid ar gyfer y lleoliad hwn gael ei dalu gan y cyngor ymchwil yn unol â rhaglen yr ymgeisydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn talu cost gwesty, cynhaliaeth, teithio ac unrhyw dreuliau ychwanegol eraill a ysgwyddir gan yr ymgeisydd PhD, mewn cysylltiad â Gwasanaethau Cymorth y Prosiect, yn ddarostyngedig ar y cyfyngiadau ym mholisi teithio a chynhaliaeth Llywodraeth Cymru. | |
| **Cyswllt** | |
| **Enw:** | Cysylltwch â **Stephany Aymerich** (Rheolwr Ymchwil ac Ymgysylltu Academaidd) yn researchplacements@llyw.cymru<br><br>Mae Llywodraeth Cymru o ddifrif ynghylch diogelu eich data. Mae ein **Hysbysiad Preifatrwydd** yn egluro sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth, pan fyddwch yn cysylltu â Llywodraeth Cymru, a sut rydym yn diogelu eich preifatrwydd. |
| **Y broses ymgeisio** | |
| Dylech anfon CV a llythyr eglurhaol at Stephany Aymerich. **SYLWER: Rhaid i bob ymgeisydd gadarnhau bod ei oruchwyliwr academaidd wedi rhoi caniatâd iddo ymgymryd â'r lleoliad**<br><br>Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.<br><br>Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, a bod angen trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o raglen y lleoliad, neu os hoffech drafod sut y byddwn yn eich cefnogi os byddwch yn llwyddiannus, cysylltwch â Stephany Aymerich cyn gynted â phosibl i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych. | |